Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Caban Aur

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/08/2015**

## Cyd-destun

Mae Caban Aur wedi'i leoli mewn ardal wledig tua phedair milltir o arfordir dwyreiniol Ynys Môn. Mae'r ysgol wedi'i chofrestru i dderbyn hyd at bedwar disgybl rhwng 11 a 16 oed sydd ag amrywiaeth o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae'r holl ddisgyblion yn derbyn gofal gan eu hawdurdodau lleol. Ar hyn o bryd, mae tri disgybl ar gofrestr yr ysgol.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu addysg amser-llawn gydag amserlen sy'n cynnwys Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, hanes a chelf, gan gynnwys therapi celf. Caiff y ddarpariaeth ar gyfer technoleg ei chynllunio ar sail drawsgwricwlaidd. Mae disgyblion yn treulio diwrnod llawn yr wythnos ar raglen o addysg awyr agored sy'n cynnwys beicio, caiacio, canŵio a dringo. Yn ogystal, mae'r amserlen yn cynnwys sesiynau addysg bersonol a chymdeithasol sy'n canolbwyntio ar baratoi ymadawyr gofal ar gyfer bywyd fel oedolyn.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma gryfderau'r ysgol:**

- Mae staff yn creu amgylchedd dysgu anogol sy'n rhoi hyder i ddisgyblion ac yn hybu llwyddiant; mae staff a disgyblion yn mwynhau perthynas waith gadarnhaol
- Mae staff addysg a staff cymorth gofal yn gweithio'n dda fel tîm ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad, presenoldeb a chynnydd disgyblion
- Mae profiadau dysgu wedi'u teilwra i anghenion, diddordebau a galluoedd unigol disgyblion
- Mae ffocws cadarn ar ddatblygu medrau byw'n annibynnol disgyblion
- Mae arweinwyr yn cyfleu gweledigaeth glir ac yn ei rhannu'n effeithiol gyda staff a rhanddeiliaid eraill

### Meysydd i'w datblygu

**Dyma feysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- Nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn ddigon arfarnol ac nid yw'n cysylltu'n dda â chynllun datblygu'r ysgol
- Mae arweinwyr yn casglu data defnyddiol am bresenoldeb, ymddygiad a chyflawniad disgyblion, er nad ydynt yn defnyddio'r data hwn yn ddigon da i

arfarnu cynnydd disgyblion ac i gynllunio'n strategol

- Mae cynllun datblygu'r ysgol yn nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella ac mae ganddo bwyslais priodol ar ddeilliannau disgyblion, er nad oes ganddo fanylion yr adnoddau a'r strategaethau y mae eu hangen i sicrhau'r deilliannau a ddymunir

- Nid yw'r holl ddogfennau polisi yn cyfeirio at ddeddfwriaeth ac arweiniad cyfredol

**Argymhellion**

**Dylai'r ysgol:**

A1. Wneud yn siŵr bod yr adroddiad hunanarfarnu yn arfanol a'i fod yn nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu yn glir

A2. Gwella'r defnydd ar ddata i ddadansoddi perfformiad a gosod targedau ar gyfer gwella

A3. Gwneud yn siŵr bod dyraniad adnoddau a strategaethau clir yn ategu blaenoriaethau i'w datblygu er mwyn sicrhau'r gwelliannau a ddymunir

A4. Datblygu prosesau effeithiol ar gyfer cadw cofnodion a sicrhau bod dogfennau polisi yn gyfredol bob amser

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

### Argymhelliad 1: Cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, gweithio gyda phobl eraill a medrau meddwl ar draws y cwricwlwm

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae dogfennau cynllunio a chynlluniau gwaith athrawon bellach yn nodi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu amrywiaeth ehangach o fedrau. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio'n cynnwys digon o fanylion ynghylch sut caiff y medrau hyn eu datblygu a'u cymhwyso.

Mae staff yn cynllunio'r cwricwlwm yn feddylgar er mwyn rhoi i'r disgyblion y medrau y mae eu hangen ar gyfer eu dyfodol. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd ac mae'r rhan fwyaf o wersi bellach yn cynnwys cyfle i ddisgyblion gwblhau tasgau ysgrifenedig estynedig.

Mae ystod ddefnyddiol o gyrsiau yn helpu disgyblion i ddatblygu medrau cymdeithasol ynghyd â medrau academaidd. Er enghraifft, mae sesiynau byw yn y gwyllt yn datblygu medrau meddwl a gwaith tîm ynghyd â medrau rhifedd, fel mesur. Mae cyrsiau sy'n helpu disgyblion i ddeall a chynnal perthnasoedd yn eu galluogi i gydweithio'n fwy llwyddiannus â'u cyfoedion.

At ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio'n briodol er mwyn datblygu rhifedd a llythrennedd disgyblion, a'u gallu i weithio gyda phobl eraill. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygiad medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) wedi'i ddatblygu ddigon.

### Argymhelliad 2: Sicrhau bod rheolwyr yn monitro ansawdd yr addysgu a'i effaith ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae arweinwyr wedi sefydlu cylch defnyddiol o weithgareddau sicrhau ansawdd ac maent bellach yn monitro ansawdd yr addysgu trwy arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion yn rheolaidd. Mae athrawon yn elwa o arsylwi eu cymheiriaid a rhannu strategaethau er mwyn gwella deilliannau i ddisgyblion.

Mae gan arsylwadau gwersi ffocws clir ar ansawdd yr addysgu a'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Mae arweinwyr yn rhoi adborth ysgrifenedig defnyddiol i athrawon, yn amlinellu'r cryfderau a'r gwendidau a welwyd. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i lunio arfarniad cyffredinol o gryfderau a gwendidau addysgu a'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni.

Mae'r pennaeth yn gwneud yn siŵr bod cyfarfodydd staff a hyfforddiant yn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod hunanarfarnu yn cael ei lywio gan safbwyntiau ystod ehangach o randdeiliaid, gan gynnwys rhieni, staff ac awdurdodau lleoli**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae arweinwyr bellach yn casglu barn staff, disgyblion, gofalwyr ac awdurdodau lleoli fel rhan o'r broses hunanarfarnu.

Mae'r trefniadau ar gyfer gwrando ar ddisgyblion wedi'u gwreiddio'n dda yn y cylch blynyddol o weithgareddau sicrhau ansawdd. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fynegi eu hoff bethau a'u cas bethau, arfarnu eu cynnydd ac awgrymu targedau ar gyfer gwella. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda wrth gynllunio gweithgareddau dysgu diddorol a phleserus sy'n cyfateb yn agos i alluoedd a diddordebau'r disgyblion.

Fodd bynnag, newydd eu rhoi ar waith y mae trefniadau ar gyfer casglu barn staff, gofalwyr a swyddogion lleoli, ac nid yw arweinwyr wedi defnyddio'r wybodaeth hon i osod targedau ar gyfer cynllun datblygu presennol yr ysgol.

At ei gilydd, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n cysylltu'n dda â chynllun datblygu'r ysgol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgolion yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgolion yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgolion yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgolion yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgolion yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgolion yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Caban Aur |
| **Rhif yr ysgol** | 660/6028 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 17/06/2015 |
| **Staff** | 2 athro amser llawn, gan gynnwys y pennaeth; 1 athro rhan-amser, cyfwerth â 0.4 amser llawn; 1 athro rhan-amser, cyfwerth â 0.2 amser llawn. |
| **Nifer y disgyblion** | 4 |
| **Darpariaeth** | Addysg ddydd yn gysylltiedig â'r cartref plant |
| **Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 08/07/2014 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 21/05/2015 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mr Anthony Mulcahy | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Elizabeth Ann Dackevych | Arolygydd Tîm |